

Awgrymiadau Gwych i Ymgeiswyr - Cyfweiliadau Fideo

Ionawr 2021



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau, rydych chi wedi cyflwyno eich ffurflen gais ar-lein ac rydych chi wedi cael eich gwahodd am gyfweiliad gyda ni yng Nghonwy. Efallai bydd rhai cyfweiliadau neu brosesau dethol yn cael eu cynnal yn bersonol, ond byddwn ni'n defnyddio cyfweiliadau fideo fel un o'r ffordd o ddod i adnabod ymgeiswyr a'u dewis ar gyfer eu penodi. Os mai dyma fydd yn digwydd, cewch wybod o flaen llaw.

Rydym am gael y gorau ohonoch chi, felly rydym wedi llunio rhai awgrymiadau i'ch helpu chi yn eich cyfweiliad dros y we.

Deall proses Conwy:

- Bydd gan bob panel cyfweled restr o gwestiynau penodol yn barod i'w gofyn i chi
- Caiff y rhain eu sgorio i'w helpu i benderfynu pwy sy'n gweddu orau i'r rôl
- Bydd cwestiynau yn profi'r sgiliau ac arbenigedd sydd wedi'u rhestru yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Manylion am yr Unigolyn
- Mae'n bosibl y bydd y panel yn cymryd eu tro i ofyn cwestiynau
- Byddan nhw'n cymryd nodiadau, peidiwch â phoeni, byddan nhw'n dal i wrando
- Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio Zoom, Skype neu Microsoft Teams ond byddwch chi'n cael gwybod am hyn o flaen llaw.

Paratoi i lwyddo:

- Gwnewch yn siŵr bod eich dyfais wedi'i gwefru'n llawn
- Profwch eich technoleg, sain a fideo o flaen llaw
- Ystyriwch lle byddwch chi'n eistedd - gwnewch yn siŵr eich bod mewn lle cyfrinachol ac na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws



Cynnwys

Llongyfarchiadau	1
Deall proses Conwy:	1
Paratoi i lwyddo:	1
Y Cyfweiliad:	2
Gwiriadau a dilysu:	2
Gorffen y cyfweiliad:	2

- Meddylwch am eich cefndir fel nad yw'n tynnu sylw, a cheisiwch beidio ag eistedd o flaen ffenestr oherwydd bydd yn effeithio ar olau eich sgrin
- Gwnewch ymchwil am y sefydliad neu'r adran - mae llawer o wybodaeth ar ein gwefan
- Gwisgwch ddillad priodol - gall gwisgo'n smart a phroffesiynol gynyddu eich hyder hefyd
- Mae'n bosibl y bydd rhai rolau yn golygu bod angen i chi roi cyflwyniad mewn cyfweiliad ac anfon copi atynt ddiwrnod o flaen llaw rhag ofn y bydd problemau technegol - ceisiwch ymarfer yr amseru o flaen llaw
- Ceisiwch baratoi rhai atebion y gallwch adeiladu arnynt, meddylwch am enghreifftiau o'ch cryfderau, gwendidau neu gyflawniadau rydych chi'n falch ohonynt
- Bydd y panel am ddod i'ch adnabod chi, beth am baratoi ateb ar gyfer dweud pam rydych chi'n teimlo mai chi fyddai orau ar gyfer y swydd a beth gallwch ei gynnig i'r tîm?

Y Cyfweiliad:

- Byddwch yn brydlon, mewngofnodwch a byddwch yn barod tua 10 munud cyn y cyfweiliad fel eich bod yn teimlo'n barod
- Peidiwch â bod ofn gofyn i'r panel ailadrodd cwestiynau - yn enwedig os bydd problemau â'r rhwydwaith neu'r microffon
- Bydd camerâu ymlaen yn ystod cyfweiliadau dros y we
- Meddylwch am iaith y corff - eisteddwch yn syth a gosod eich camera fel eich bod yn wynebu syth ymlaen
- Fel arfer, bydd y panel yn dechrau gyda chwestiwn "setlo" a sgwrsio i ddod i'ch adnabod chi
- Gwenwch, ceisiwch ymlacio a byddwch yn chi eich hun
- Ceisiwch fod yn llonydd a pheidiwch â thynnu wynebau gwirion, os ydych chi'n gwybod eich bod chi'n gwneud hyn, beth am ymarfer rheoli hyn o flaen llaw?
- Cymerwch nodiadau i edrych arnynt i'ch helpu, ond peidiwch â'u darllen fel sript
- Cofiwch nad yw cyswllt llygad yn golygu edrych ar y sgrin yn unig, rhaid edrych ar y lens o dro i dro
- Cofiwch roi enghreifftiau gyda'ch atebion, atebion llawn sy'n cael y sgorau gorau.



Gwiriadau a dilysu:

- Bydd y panel yn gofyn am unrhyw fylchau o ran hanes cyflogaeth neu unrhyw beth maen nhw am ei wirio ar eich ffurflen gais felly gwnewch yn siŵr bod gennych gopi ohoni wrth law
- Gwnewch yn siŵr bod gennych gopiâu o'ch tystysgrifau, dull adnabod neu ddogfennau hawl i weithio gyda chi oherwydd mae'n bosibl y bydd angen i chi eu dangos i'r camera er mwyn dilysu. **Coronafeirws (COVID-19): Gwiriadau hawl i weithio - GOV.UK (www.gov.uk)**
- Os cewch eich penodi, gofynnir i chi sganio neu anfon llun o'r dogfennau hyn.

Gorffen y cyfweiliad:

- Bydd y panel yn rhoi amser i chi ofyn cwestiynau os oes gennych chi rai
- Byddan nhw hefyd yn rhoi gwybod i chi pa bryd fyddan nhw'n bwriadu gwneud penderfyniad a sut byddan nhw'n cysylltu â chi.

POB LWC!